BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# MYNWENTYDD AC AMLOSGFEYDD

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP38

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

## **Crynodeb Gweithredol**

i. Mae'r papur cefndir hwn yn un o gyfres a gynhyrchwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r polisïau a'r dyraniadau safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Adneuo. Gellir darllen pob papur cefndir ar ei ben ei hun neu ynghyd â phapurau cefndir eraill i gael dealltwriaeth ehangach o'r materion defnydd tir sy'n wynebu Bro Morgannwg.

ii. Mae'r papur cefndir hwn yn rhoi diweddariad i Adolygiad Tir Claddu Bro Morgannwg yn 2008. Cynhaliwyd adolygiad 2008 gan TACP a chynigiodd adroddiad cynhwysfawr ar y sefyllfa bresennol, y lle sydd ar gael a'r galw am gyfleusterau claddu ym Mro Morgannwg. Mae'r papur hwn yn cynnig rhai ffigurau wedi'u diweddaru i'r rhai a ddefnyddiwyd yn adroddiad 2008 ac yn pennu'r angen am bolisïau tir claddu neu gyfleusterau claddu pellach ar gyfer y CDLIN.

iii. Mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn dangos, er bod gan rai o'r cyfleusterau presennol yn y Fro ddarpariaeth ddigonol dros gyfnod y CDLIN, yn seiliedig ar y cyfraddau presennol, nad oes darpariaeth ddigonol yn y mynwentydd a reolir gan gynghorau tref Penarth, Llanilltud Fawr a Phorthceri. Yn ogystal, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r mynwentydd sy'n cael eu rheoli gan gynghorau cymuned yn brin o fannau claddu yn ystod cyfnod y CDLIN. Er bod y tiroedd claddu hyn yn cynnal llawer llai o gladdedigaethau na thiroedd cynghorau tref, maent yn adnodd lleol pwysig i gymunedau lleol. Nid oes gan y rhain, yn ogystal â mynwentydd eglwysi, lawer o gyfle i ehangu.

iv. Rhagwelir y bydd diffyg lle ym mynwentydd cynghorau cymuned a threfn a mynwent Porthceri yn broblem sylweddol gyda'r galw cynyddol ar ôl ychwanegu tai newydd yn y Barri, y Rhws a Sain Tathan. Mae'r astudiaeth hon wedi ceisio nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater o alw a diffyg lle presennol ac yn y dyfodol. Rhagwelir bod gan ddwy fynwent a thri safle cyngor cymuned gapasiti yn ogystal â'r fynwent naturiol a safle Memoria ar gyfer cyfnod y cynllun, a thair mynwent a phum safle cyngor cymuned heb gapasiti ar gyfer cyfnod y cynllun.

v. Er y bydd rhai o'r cyfleusterau claddu presennol yn y Fro yn cyrraedd neu'n agos at y terfyn o ran lle erbyn diwedd cyfnod y cynllun, mae cyfleoedd i gynyddu lle naill ai trwy ymestyn safleoedd presennol neu ddatblygu rhai newydd. Mae'r papur hwn yn canfod y dylid ystyried cyfleusterau newydd yn ystod y cam gwneud cais lle nad oes llawer o gyfle i ehangu. Yn ogystal, ehangu cyfleusterau lle bo'n bosibl yw'r opsiwn ac mae tir wedi'i nodi ger Mynwent Porthceri ar gyfer tir claddu ychwanegol.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

